

# CYN- FYFYRWYR CBCDC

CYLCHLYTHYR  
HYDREF  
2020



**ROYAL WELSH COLLEGE**  
OF MUSIC & DRAMA  
**COLEG BRENHINOL**  
CERDD A DRAMA CYMRU

[rwcmd.ac.uk/alumni](http://rwcmd.ac.uk/alumni)



Tim Rhys Evans a Jonathan Munby.

## DOD I ADNABOD JONATHAN MUNBY A TIM RHYS-EVANS

### AR DDECHAU 2020 GWNAETHOM GROESAWU JONATHAN MUNBY YN GYFARWYDDWR PERFFORMIO DRAMA NEWYDD A TIM RHYS-EVANS YN GYFARWYDDWR CERDDORIAETH.

Mae Jonathan, sy'n adnabyddus am ansawdd ac amrywiaeth ei gastiau a'i dimau creadigol yn ogystal ag am fod yn artist cydweithredol a chynhwysol, wedi gweithio gyda thestunau clasurol a rhai mwy amrywiol mewn theatrau ledled y byd. Ei gynhyrchiad olaf cyn ymuno â ni oedd cyfarwyddo Syr Ian McKellen yn *King Lear*. Ochr yn ochr â'i gynhyrchiadau gwobrwyedig, sydd hefyd yn cynnwys theatr gerddorol a chyfarwyddo opera, mae Jonathan wedi gweithio gydag actorion ar bob cam o'u hyfforddiant. Wrth i Jonathan ymuno â'r Coleg cyhoeddodd y bydd Chinonyerem Odimba, y dramodydd, ysgrifennwr ar gyfer y sgrin a bardd gwobrwyedig o Fryste yn ymuno â ni ym mis Medi fel ein Hysgrifennwr Preswyl cyntaf.

Mae Tim eisoes yn gyfarwyddwr i'r Coleg gan iddo raddio yma, ei fod yn gyn diwtor astudiaethau llais yma a hefyd yn Gymrawd y Coleg. Ef hefyd yw sylfaenydd a Chyfarwyddwr Artistig Elusen Aloud, sy'n cynnal Only Boys Aloud ac Only Kids Aloud, a chrëwr Only Men Aloud. Fel cerddor o fri mae

gwaith Tim wedi mynd ag ef i bob rhan o'r byd fel arweinydd corawl, arbenigwr llais, trefnydd, cyfansoddwr, beirniad a chyflwynydd teledu a radio. Mae ganddo gefndir eang ym maes opera ac mae wedi gweithio fel Cyfarwyddwr Cerddoriaeth Opera leuenticid Cenedlaethol Cymru a Youth Opera Northern Ireland, yn ogystal â bod yn Gôr-feistr Cyswllt ar gyfer Opera Cenedlaethol Cymru. Yn 2013 dyfarnwyd MBE iddo am wasanaeth i gerddoriaeth a gwasanaethau elusenol.

Roeddem am i chi ddod i adnabod Jonathan a Tim yn well, gyda pheth mewnwelediad nad sydd i'w gael drwy gwnglo!

#### C: BETH OEDDECH CHI AM FOD WRTH DYFU I FYNFYR?

**J:** Roeddwn i wastad eisiau bod yn beilot a hedfan awyrennau - er bod hynny o bosibl yn rhywbeth i wneud â'r iwniform. Roeddwn i wedi bod yn actor ers i mi fod yn ifanc a dyna'r unig beth roeddwn i'n dda am ei wneud ond nid oedd fy nheulu, sydd â diddordeb brwd iawn mewn chwaraeon, yn rhy foddolon gyda hynny. Os nad oeddwn yn mynd i fod yn beilot, yna actio oedd y peth nesaf wedyn. Fe es i'r brifysgol, yn hytrach nag ysgol ddrama, er nad oeddwn yn hapus ynglŷn â hynny, ond roedd fy

**"FEL CERDDOR O FRI MAE GWAITH TIM WEDI MYND AG EF I BOB RHAN O'R BYD FEL ARWEINYDD CORAWL, ARBENIGWR LLAIS, TREFNYDD, CYFANSODDWR, BEIRNIAD A CHYFLWYNYDD TELEDU A RADIO."**

rhieni'n benderfynol o'm gwro oddi wrth y llwyfan. Dechreuais greu gwaith yn hytrach na pherfformio a sylweddolais fy mod yn mwynhau hynny'n llawer mwy. Felly fe ddes yn gyfarwyddwr, ac wedi tua ugain mlynedd yn y busnes rwy'n hapus dros ben i fod yma yng Ngholeg Brenhinol Cymru.

**T:** Roeddwn i eisiau bod yn gerddor am y rhan fwyaf o fy ieuenctid ond gan nad oedd unrhyw aelod o fy nheulu wedi bod yn y proffesiwn cerddoriaeth, cymerodd beth amser i mi sylweddoli y byddai bod yn gerddor yn opsiwn. Cyn i mi ddarganfod y piano, fy hoff degan oedd Lego ac mae gen i gof clir o ddweud wrth bobl fy mod eisiau bod yn bensaer, oherwydd fy mod yn meddwl y byddwn wedyn yn gallu adeiladu Lego drwy'r amser. Roedd gen i ddiddordeb mawr hefyd mewn mytholeg Eifftaidd a Llychlynaidd pan oeddwn yn fach iawn, felly am gyfnod roeddwn i'n meddwl am fywyd fel archeolegydd. Hoffwn bwysleisio mai syniadau oedd gen i cyn fy mod yn chwech oed oedd y rhain felly ni ystyriais yr un o'r meysydd hyn fel gyrfa o ddirif. Fodd bynnag, fy mhrif ddiddordeb bob amser oedd perfformio, ac yn fuan iawn roeddwn i'n gwybod y byddai'n rhaid i mi fod yn rhan o'r celfyddydau perfformio mewn rhyw fodd. O'r cyfnod pan oeddwn yn wyth neu'n naw oed byddwn wastad yn gorfodi fy mrawd a fy nghefndryd i wisgo rhyw wisg neu'i gilydd ac yn creu cynhyrchiadau 'rhyfeddol' yn ystafell ffrynt Modryb Muriel. Roeddwn i'n ffodus iawn bod fy nheulu yn boddio fy mympwyon yn yr ymdrechion artistig hyn. Yn anffodus, mae llawer o dystiolaeth ffotograffig yn dal i fodoli! (Fe geisiwn gael gafael ar y rhain ar gyfer rhifyn yn y dyfodol - Gol.)

#### C: BETH YW EICH HOFF BRYD BWYD?

**J:** Rydw i wrth fy modd gyda chyri. Dyna'r unig beth fydd ei awydd arnaf pan fyddai'n gweithio oddi cartref. Nawr fy mod yng Nghaerdydd yn llawn amser rydw i eisoes wedi canfod dau fwyty cyri gwych ar garreg fy nrws.

**T:** Mae hwn yn gwestiwn anodd. Mae gen i ddiddordeb mawr mewn bwyd. Rydw i wrth fy modd yn pobi ac yn mwynhau bwyta! Rydw i hefyd yn mwynhau teithio ac mae bwyd yn ddylanwad mawr ar benderfynnu lle i fynd ar wyliau. Rydw i wedi cael y fraint o fod wedi teithio i fannau rhyfeddol. Dau atgof cysylltiedig â bwyd sy'n aros yn glir yn y cof yw bwyta bwyd stryd yn Bangkok a blasu'r cyri hyfrytaf ar lan Llyn Udaipur Pichola yn India. Wedi dweud hynny, bachgen y cymoedd ydw i yn y bôn ac roedd bwyd wastad yn bwysig iawn i fy nheulu. Mae fy mam yn gogyddes ragorol a gallaf gofio sefyll droeon wrth ochr 'nanna', yn bwyta pice ar y maen poeth yn syth oddi ar y llechfaen. Roedd eu hyfrydwch menynaidd yn nefoedd.

#### C: BETH YW EICH ARFER GWAETHAF?

**J:** Rydw i'n un gwael iawn am arafu a chymryd seibiant. Yr hyn sy'n gyrru fy mhartner yn wallgof yn fwy na dim yw fy amserlenni gwyliau. Y cyfan

**"MAE JONATHAN WEDI GWEITHIO GYDA THESTUNAU CLASUROL A MWY AMRYWIOL MEWN THEATRAU LEDLED Y BYD. EI GYNHYRCHIAD OLAF CYN YMUNO Â NI OEDD CYFARWYDDO SYR IAN MCKELLEN YN KING LEAR."**

mae ef am ei wneud yw ymlacio a bod gyda'n gilydd, ond yna bydd yn cael amserlen o deithiau ac 'anturiaethau' sydd wedi'u trefnu. Fe fu hi bron yn ysgariad yn ystod ein mis mêl: roeddem wedi hedfan miloedd o filltiroedd i Wald Thai ac ar ein noson gyntaf, yn lle ymlacio yn ein gwesty moethus, roeddem yn cerdded ar ffordd brysur, yn groes i'r traffig a hithau'n 35°C a'r lleithder yn 100%, er mwyn dod o hyd i dŷ bwyta ymyl y ffordd a oedd yn gweini'r 'crancod cragen feddal gorau yn Bangkok,' yn ôl Lonely Planet. Yn chwys domen a'n gyddfau'n sych oherwydd mwg y cerbydau, daethom o hyd iddo. Roedd ar gau. Dechrau go arw i'r briodas. Yn anffodus, bu sawl antur tebyg ers hynny a phob un yn fygythiad i'm perthynas. Fe fyddech yn meddwl y byddwn yn dysgu fy ngwers erbyn hyn.

**T:** Dydw i ddim yn meddwl mai fi yw'r person gorau i ateb hwn, ond byddai fy ngŵr mwy na thebyg yn dweud fy chwynu. Dydw i ddim yn meddwl fy mod yn chwynu ond mae wedi bod yn gwisgo plygiau clustiau am y 23 mlynedd ddiwethaf, felly efallai fod ganddo bwynt.

#### C: PA RAN FYDDECH CHI'N EI CHWARAE MEWN FFILM?

**J:** Tilda Swinton. Ni all wneud unrhyw beth o'i le a gall actio unrhyw beth - hyd yn oed cyfarwyddwr theatr yng nghanol ei 40au!

**T:** Harry Potter yn ganol oed!

#### C: BETH YW EICH HOFF BETH AM FYWYD COLEG HYD YMA?

**J:** Cwrdd â Tim Rhys-Evans, wrth gwrs. O'r diwedd gallwn roi wyneb i'r chwynrwr enwog. Wedi Tim - o bosibl cael fy nhywys o amgylch y campws am y tro cyntaf. Mae ein hadeiladau a'n cyfleusterau'n anhygoel.

**T:** Gan i mi ddechrau'r swydd hon yn ystod y clo mawr dydw i ddim hyd yma wedi cael llawer o brofiadau 'yn y Coleg'. Rydw i wedi mwynhau gweld y Coleg yn deffro o gocŵn y clo mawr gydag operâu haf a ohiriwyd i'w gweld yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac alla'i ddim aros tan ddechrau'r tymor newydd a dechrau dod i adnabod pawb yn iawn. Mae'n anrhydedd i mi fod wedi cael cynnig rôl Cyfarwyddwr Cerddoriaeth ac rydw i'n llawn cyffro i weld sut un fydd y dyfodol.



# AELODAU CYSWLLT ANRHYDEDDUS CBCDC 2020

**CRÛWYD DYFARNIAD AELODAU  
CYSWLLT ANRHYDEDDUS CBCDC  
DDWY FLYNEDD YN ÔL ER MWYN  
CYDNABOD GRADDEDIGION  
DIWEDDAR SYDD WEDI SEFYDLU  
EU HUNAIN A GWNEUD CYFRANIAD  
SYLWEDDOL YN GYNNAR YN EU  
GYRFA DDEWISOL. MAE'N BLESER  
GENNYM GYHOEDDI DERBYNWYR  
ELENI WRTH EIN CYMUNED CYN-  
FYFYRWYR YN GYNTAF:**

## TOKS DADA

Rhaglennydd, Curadur a Chynhyrchydd yw Toks Dada. Ar hyn o bryd ef yw'r Rheolwr Rhaglen Glasurol yn Neuadd y Dref a Neuadd Symffoni Birmingham, mae'n Gyfarwyddwr Bwrdd Opera Cenedlaethol Cymru, yn Gyngorydd gyda Sefydliad PRS for Music ac yn Gymrawd ISPA.



Graddedig Toks Dada.

## DAVID DOIDGE

Enillodd David Wobr Concerto CBCDC pan oedd yn fyfyrwr, ac erbyn hyn mae'n hyfforddwr ar ymweliad ar gyfer yr Ysgol Opera a'r adran Astudiaethau Llais. Yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Gôr-feistr gydag Opera Cenedlaethol Cymru, ac mae wedi perfformio mewn nifer o leoliadau rhyngwladol gyda rhai o brif arweinwyr a chantorion y byd.

## CAI DYFAN

Ers iddo raddio yn 2011 mae Cai wedi bod yn gweithio fel Cynllunydd Set a Gwisgoedd ar *On Bear Ridge*, Royal Court Theatre a National Theatre Wales, *Instructions for Incorrect Assembly* yn Royal Court Theatre Downstairs 2018, Cyfarwyddwr Celf Wrth Gefn ar *A Discovery of Witches* ar gyfer *Sky One/Bad Wolf* a Chyfarwyddwr Celf Cynorthwyol ar *Y Gwyll/Hinterland*.

## TOMOS RHYS HARRIES

Cafodd Tom ei enwi'n Seren Yfory gan Screen International yn 2012, ac mae wedi gweithio'n helaeth ar y llwyfan ac yn y byd teledu a ffilmiau. Yn fwyaf diweddar chwaraeodd y brif ran, Axel, yng nghyfres *Left Bank/Netflix*, *White Lines* sef y sioe a oedd yn trendio fwyaf ar Netflix ar draws 30 o wledydd. Mae ei waith teledu arall yn cynnwys *Britannia*, *Unforgotten*, *Jekyll & Hyde* a *Parades's End*.

## CHRISTOPHER HART

Ymunodd Chris â Cherddorfa Genedlaethol Frenhinol yr Alban fel Prif Drympedwr yr Adran yn 2016. Cyn hynny roedd wedi mwynhau gyrfa brysur fel cerddor llawrydd, yn perfformio ledled y DU ac Ewrop gydag ensembles megis Cerddorfa Ffilharmonig Llundain, Cerddorfa Symffoni Dinas Llundain a Cherddorfa Symffoni Stavanger.

## TRYSTAN LLŶR GRIFFITHS

Mae Trystan, a raddiodd o Ysgol Opera CBCDC, wedi chwarae rhannau blaenllaw gyda Scottish Opera, Opera Zurich, Opera North, Opera Cenedlaethol Cymru, Opera National de Lorraine, Aix-en-Provence. Mae ganddo gytundeb ar gyfer nifer o albymau gyda Decca Records a alwodd ef yn 'Llais Cymru' yn 2012.

## LÁRA SÓLEY JÓHANNSDÓTTIR

Feiolinydd yw Lára Sóley sydd wedi bod yn gweithio fel cerddor a rheolwr prosiect annibynnol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhwng 2010 a 2014 roedd yn rheolwr prosiect yn Hof Cultural Center yn Akureyri ac yno roedd hefyd yn rheolwr cyffredinol wrth gefn. Mae wedi bod yn gôr-feistr Cerddorfa Symffoni Gogledd Gwlad yr Iâ ac yn rheolwr gweithredol cyfres cyngherddau'r haf yn eglwys Akureyri. Fe'i penodwyd yn rheolwr gyfarwyddwr Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ yn 2019.

## JASON LEWIS

Ar ôl graddio o CBCDC cwblhaodd Jason radd Meistr yn y Celfyddydau yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn Llundain. Fe'i penodwyd yn Brif Drympedwr Cerddorfa Scottish Opera yn 2018 ac yn Brif Drympedwr cyswllt Cerddorfa Genedlaethol Frenhinol yr Alban yn 2019.



Graddedig Lára Sóley Jóhannsdóttir. Llun gan Rebecca Lewis.

## CAROLINE RUTH LIEW

Ar ôl graddio gyda gradd BA (Anrh) mewn Rheoli Llwyfan yn y Coleg yn 2012, dychwelodd Carolene i Singapôr lle mae ei gyrfa wedi mynd o nerth i nerth fel rheolwr llwyfan gyda nifer o gwmnïau megis Pandemonium Theatre Company, Singapore Repertory Theatre a Glowtape Productions. Treuliodd Carolene bedair blynedd fel Uwch Gydlynnydd Cynhyrchiad yn yr enwog Esplanade - theatres on the Bay, Singapôr ac yn ddiweddar symudodd i Resorts World Sentosa.

## MICHAEL ROBERT LOWE

Castiwyd Michael Robert-Lowe ar gyfer yr Ensemble/Joseph Buquet/Ail wrth gefn ar gyfer rhan Monsieur Firmin yn Nhaith y DU ac Iwerddon o *The Phantom of the Opera*.

## TIANYI LU

Mae gan Tianyi Lu swyddi Arweinydd Cynorthwyol Cerddorfa Symffoni Melbourne, Prif Arweinydd St Woolos Sinfonia yn y DU, ac o fis Awst 2019 dechreuodd ei rôl fel Arweinydd Benywaidd Cyswllt gydag Opera Cenedlaethol Cymru.

## RHIAN LOIS

Mae Rhian yn raddedig o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, y Coleg Cerdd Brenhinol a'r Stiwdio Opera Genedlaethol ac mae ei hymddangosiadau yn cynnwys Atalanta *Xerxes*, Musetta *La Boheme*, Frasquita *Carmen*, Menyw Ifanc *Between Worlds*, Nith Gyntaf *Peter Grimes*, Papagena *The Magic Flute* a Yvette *The Passenger*, y cyfan ar gyfer ENO.

## HOLLY PIGOTT

Cyrhaeddodd Holly rownd derfynol Gwobr Linbury am Gynllunio Llwyfan a hefyd cwblhaodd gyfnod blwyddyn ar leoliad fel Cynllunydd Dan Hyfforddiant gyda'r Royal Shakespeare Company. Fel cynllunydd set a gwisgoedd mae wedi gweithio ar gyfer gwahanol leoliadau a chwmmnïau, yn cynnwys y Tŷ Opera Brenhinol, Young Vic, Sadler's Wells a Gŵyl Opera Copenhagen. Mae ei chredydau diweddar yn cynnwys *Fleabag* (Wyndam's Theatre), *Ages Of The Moon* (Vaults Theatre) a *L'elisir d'amore* (Iford Opera).

## LUKE RUSSELL

Gadawodd Luke Russell Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru i astudio am ôl-radd yn y Guildhall School of Music and Drama. Yna ymunodd â Southbank Sinfonia ym mis Ionawr 2013. Ers hynny mae wedi gweithio'n llawrydd gyda nifer o gerddorfeidd Prydain gan gynnwys Cerddorfa Symffoni y BBC, Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Penodwyd Luke yn Brif Chwaraewr Picolo yng Ngherddorfa Symffoni BBC yr Alban ym mis Ebrill 2019.

## KEVIN SMITH

Rheolwr Llwyfan Cwmni a Dirprwy Reolwr Llwyfan wedi'i leoli yng Nghaerdydd yw Kevin ac mae wedi gweithio ar *Woof* a *Little Red Riding Hood/Yr Hugan Fach Goch* yn Theatr y Sherman, *The Taming of the Shrew* yn Theatr y Sherman a Tron Theatre, *Lord of the Flies* yn Theatr Clwyd.

## CATRIN STEWART

Ers graddio yn 2011, mae Catrin wedi ymddangos mewn cyfresi teledu yn cynnwys *Bang*, *Misfits*, *Doctor Who* a *Stella*. Mae wedi gweithio gyda National Theatre of Wales, Theatr Clwyd, The Playhouse a Rose Theatre, Kingstone - ymhlith eraill!

## HANNAH STONE

Yn 2011, ar ôl cwblhau ei gradd Meistr yn CBCDC, penodwyd Hannah Stone fel y bedwaredd Delynores Swyddogol i EUB Tywysog Cymru. Ers hynny mae wedi mwynhau gyrfa ryngwladol fel unawdydd, ac wedi chwarae mewn gwyliau cerddoriaeth a neuaddau cyngerdd o fri ledled y byd.

## LUCY TOPHAM

Yn dilyn ei hastudiaethau ôl-radd mewn Rheoli Llwyfan yn 2010, ymunodd Lucy â'r Royal Court fel rheolwr llwyfan cynorthwyol. Yn fuan wedi hyn cafodd rolau rheoli llwyfan ledled y DU. Roedd y rhain yn cynnwys y Crucible yn Sheffield, taith byd yr RSC o King and Country Cycle ac yn fwy diweddar roedd Lucy yn ddirprwy reolwr llwyfan yng Ngŵyl Grange. Bydd Lucy yn dychwelyd yn rheolaidd i Sheffield Theatres, lle'r oedd yn rhan o'r tîm Rheoli Llwyfan a enillodd wobwr Tîm Rheoli Llwyfan SMA am eu tymor yn 2019.

## TOBIAS TRIPP

Aml-offerynnwr, trefnydd llinynnau, ysgrifennwr caneuon a chynhyrchydd sydd wedi'i leoli yn Llundain yw Tobie Tripp. Mae wedi gweithio gydag ystod o artistiaid a cherddorion o sawl gwahanol genre megis Tom Misch, Calum Scott, Jordan Rakei, Kwabs, Tom Chaplin, Oh Wonder, Alfa Mist, Blonde, All Saints, Years & Years, Tom Grennan, Cerddorfa Symffoni Bournemouth, Dave, HONNE, Jess Glynne a llawer mwy.



# LOCKDOWN LOWDOWNS

YN YSTOD WYTHNOS OLAF TYMOR YR HAF CYNHYRCHODD YR ADUAN CERDDORIAETH GYFRES O SESIYNAU HOLI AC ATEB AR ZOOM O'R ENW 'LOCKDOWN LOWDOWN' A ARWEINIWDYD GAN EIN CYFARWYDDWR CERDDORIAETH TIM RHYS-EVANS GYDA 12 O BERFFORMWYR, ARWEINWYR A CHYFANSODDWR MUYAF BLAENLLAW'R BYD A OEDD YN YNNWYS Y FONESIG KIRI TE KANAWA, ERROLLYN WALLEN CBE, GRACE BUMBRY, DENNIS ROLLINS, JOHN WILSON A RYAN BANCROFT.

Clocwedd o'r chwith uchaf: Dennis Rollins, Sofi Jeannin, Carlo Rizzi ac Errollyn Wallen.

**"RHODDODD YR ARTISTIAID HYN EU HAMSER I GYSYLLTU DRWY ZOOM O LEOLIADAU LEDLED Y BYD. O TORONTO I'R ALMAEN, MEYSYDD PARCIO GWERTHWYR BWYDYDD PAROD I OLEUDY YN YR ALBAN..."**

Rhoddodd yr artistiaid hyn eu hamser i gysylltu drwy Zoom o leoliadau ledled y byd. O Toronto i'r Almaen, meysydd parcio gwerthwyr bwydydd parod i oleudy yn yr Alban, rhoesant gipolwg i ni ar eu bywydau, eu gyrfaedd a'u profiadau yn ystod y clo mawr, gan ymateb yn hael i gwestiynau gan fyfyrwyr, a datgelu rhai o'u hoffterau personol mewn ymateb i rownd atebion cyflym chwareus Tim. Mae recordiadau fideo o'r sgysiau diddorol hyn i'w gweld ar ein **tudalen Rhaglen** a gallwch ddarllen y stori'n llawn yn ein **blog ar y wefan**.



# REPCo 2020

**MAE MYFYRWYR ENTREPRENEURIAIDD YN CBCDC YN RHEOLI CWMNI SEFYDLOG A ARWEINIR GAN FYFYRWYR GYDA'R NOD O HYRWYDDO ENTREPRENEURIAETH IEUENCTID.**

Mae REPCo (Repertory by Entrepreneurial Performers Company) yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr o bob cwrs gynhyrchu eu prosiectau perfformio rhyng-ddisgyblaethau eu hunain, a chynhyrchir gwaith drwy gydol y flwyddyn gan arwain at ŵyl haf sy'n para wythnos. Gyda chynrychiadau wedi'u gohirio yn ystod tymor yr Haf oherwydd Covid 19, penderfynodd myfyrwyr fod yn rhithwir greadigol gan arwain at ffrydio byw dros Facebook a'u sianel YouTube eu hunain. Cynorthwyodd David Tillotson, myfyriwr Corn BMus 3 i gydlynu recordiadau fideo a chymerodd gyfrifoldeb am dudalennau cyfryngau cymdeithasol REPCo gan sicrhau brwdfrydedd mawr ym mherfformiadau'r clo mawr!

"Roedd REPCo Haf 2020 yn gwbl wahanol i bob un arall, gyda'r penderfyniad cyflym iawn ac yna'r gwaith addasu i fynd yn rhithwir. Dros ychydig fisoedd cyntaf y trydydd tymor, roedd myfyrwyr CBCDC ledled y DU wrthi'n brysur yn trefnu,

recordio, creu fideos a golygu er mwyn cyrraedd eu hamser terfyn 2 Gorffennaf. Dros nifer o alwadau Zoom gofynwyd i mi ymgymryd â'r rôl cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwneud yn siŵr bod ein diwrnod REPCo rhithwir yn cael ei gwblhau. Roeddwn i, fel llawer o rai eraill oedd yn rhan o'r prosiect, i fod i gynnal fy mhrosiect fy hun fel rhan o wythnos REPCo yn y Coleg. Band cyngerdd oedd fy eitem i gyda gweithiau gan Gershwin a John Williams, i enwi dim ond rhai. Roedd yr eitemau'r ŵyl yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau; Bandiau Cyngerdd, Sgetshis Comedi y Clo Mawr a chantorion yn perfformio gweithiau gan gyfansoddwyr o Rwsia. Gallai gwylwyr wylio ar ddau blatfform, naill ai fel rhan o'n fideos byw oedd wedi'u hamserlennu ar Facebook neu ar ein sianel YouTube sydd newydd ei chreu, lle cyhoeddwyd popeth o 7pm ymlaen ar yr un diwrnod. Mae'r holl fideos yn dal ar Facebook ac YouTube i bawb gael eu gweld.

Ers eu huwchlwytho, mae ein fideos wedi'u gwyllo 7.4 mil o weithiau ac rydym yn dal i gyfrif. Mae hwn yn gyflawniad sylweddol gan yr holl fyfyrwyr a oedd yn gysylltiedig a dylai pawb yn CBCDC fod yn falch o'u gwaith caled drwy gydol y cyfnod digynsail hwn. Hoffem hefyd ddiolch i berchnogion y prosiectau unigol; Christopher Turnbull, Neil Brownless, David Tillotson, Jose Eduardo, Arina Mkrchtian a Nathan Pallotto.

Yn sicr hon fu'r ŵyl REPCo fwyaf heriol, ond gydag ychwanegiad mynd yn rhithwir rydym wedi ennill cynulleidfa llawer mwy sydd wedi'n helpu i ledaenu'r cyfleoedd rhyfeddol y mae RepCo yn CBCDC yn eu rhoi i bob un o'i fyfyrwyr"

*David Tillotson, myfyriwr Pres BMus 3*





## GWOBRAU SGILIAU CBCDC



Prosiect 'Sew to Say' Valentine Gigandet gydag elusen Oasis a Juliette Georges yn cyflwyno gweithdy yn Amgueddfa Caerdydd.

**LLONGYFARCHIADAU DDWYWAITH I ENILLWYR GWOBRAU SGILIAU COLEG BRENHINOL CYMRU A DDERBYNIODD EU GWOBR AR Y DIWRNOD Y GWNAETHANT RADDIO! MAE'R GYMERADWYAETH FEL PRIF ENILLYDD 2020 YN MYND I'R MYFYRIWR CYNLLUNIO AR GYFER PERFFORMIO VALENTINE GIGANDET, Y CYNLLUNYDD JULIETTE GEORGES OEDD YN AIL, AC YN GYDRADD DRYDYDD YR OEDD Y CYFANSODDWR DERRI LEWIS A'R ARWEINYDD STEFANO BOCCACCI.**

Bob blwyddyn gwahoddir ein myfyrwyr i gyflwyno eu gwaith allgyrsiol ar gyfer y Gwobrau, sy'n cydnabod gweithgareddau y tu allan i'w hastudiaethau yn ystod eu cyfnod yn y Coleg. Gall hyn gynnwys profiad gwaith, gwirfoddoli, prosiectau arloesol a gweithio gyda chyfres REPCo y Coleg a arweinir gan y myfyrwyr. Enillodd Valentine y brif wobwr am ei chyfraniad i'r gymuned drwy amrywiaeth o brosiectau a hunan-arweiniodd a oedd yn cynnwys prosiect Sew To Say Ymddiriedolaeth Elusen Oasis, sy'n helpu ffoaduriaid i ddatblygu sgiliau hanfodol. (Mae elusen Oasis yn helpu ffoaduriaid a cheiswyr lloches i integreiddio i'w cymuned leol yng Nghaerdydd.)

"*Diolch o waelod calon CBCDC!*", meddai Valentine. "*Mae'r Wobr Sgiliau yn gyfle gwych i edrych ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni yn ystod ein cyfnod yn y Coleg. Fe fyddwn i'n annog pob un i gamu y tu*



*allan i'r hyn y maent yn ei astudio, defnyddio'r sgiliau y maent yn eu dysgu yn y Coleg a mynd â nhw allan i'r byd go iawn.*

*"Yn ystod fy nghyfnod yn CBCDC fe wnes gyfarfod â myfyrwyr a arweiniodd brosiectau allgyrsiol hynod ddiddorol a gwreiddiol. Dylai pawb fod yn falch iddynt fod yn rhan o gymuned mor greadigol!"*

Mae'r ail wobwr hefyd yn mynd i'n hadran Cynllunio wrth i Juliette gael ei gwobrwyo am ei chyfraniad i godi ymwybyddiaeth ar gyfer y gymuned LGBTQIA+, yn y Coleg ac yn y gymuned yn ehangach. Canmolwyd Juliette yn arbennig am ei gwaith yn addysgu staff Amgueddfa Caerdydd ar iaith 'queer'. Yn rhannu'r drydedd wobwr mae Derri, a gymerodd ran mewn gweithgareddau dramor ac a wirfoddolodd yn y gymuned, a bu Stefano yn cydweithio ar brosiectau dan arweiniad myfyrwyr ar draws pob adran yn y Coleg a gyda sefydliadau allanol.

*"Beth bynnag fo'r yrfa sydd gennych mewn golwg byddwch yn camu i fyd cystadleuol a bydd cyflogwyr y dyfodol yn chwilio am ymgeiswyr a fydd yn gallu ychwanegu gwerth a chynnig sgiliau ychwanegol,"* meddai Brian Weir, Cyfarwyddwr Profiad Myfyrwyr.

*"Bydd eich gallu i arddangos y profiadau rydych wedi'u datblygu ochr yn ochr â'ch astudiaethau yn cael ei gydnabod fwyfwy gan gyflogwyr yn y dyfodol."*

*"Mae enillwyr ein gwobrau eleni yn fyfyrwyr y mae eu cyfraniad i weithgareddau allgyrsiol wedi cael effaith ar draws y sefydliad yn gyfan a'r gymuned yn ehangach. Llongyfarchiadau i bawb!"*

## RHAGLEN GREADIGOL



Ripples, menter 'Darlleniadau o Ddramâu Network' National Theatre Wales + Theatr y Sherman, mewn cydweithrediad â BBC Cymru a BBC Arts.

**ER BOD EIN LLEOLIADAU AR GAU, MAE'R RHAGLEN GREADIGOL YNG NGHOLEG BRENHINOL CYMRU WEDI PARHAU I LIFO MEWN AMGYLCHIADAU ANODD.**

Bron yn syth wedi'r clo mawr sefydlwyd Atmospheres Radio felly gallai ein sesiwn jazz wythnosol 'AmserJazzTime' barhau ar-lein, yn syth i gartrefi pobl. Daeth yr orsaf radio hefyd yn gartref i 'Wyl Awyrgylch' ym mis Mai a 'Gwyl AmserJazzTime' ym mis Mehefin. Croesawodd myfyrwyr o'r adran gyfansoddi y cyfrwng newydd ymhellach gyda'r 'Nat & Jake Show' yn dod yn elfen reolaidd yr orsaf.

Ym maes drama, cymerodd National Theatre Wales a Theatr y Sherman ofal o'n cynhyrchiad a ganslwyd o 'Ripples' gan Tracy Harris, ac fe'i cynhyrchwyd fel perfformiad Zoom arbennig gyda chast gwreiddiol CBCDC. Gwnaethom hefyd gynnal cyngerdd byw dros Zoom gyda'r ensemble byrffyrrio o'r Iseldiroedd Tin Men and the Telephone lle gallai aelodau'r gynulleidfa'n ryngweithio gyda'r band yn fyw drwy eu ap ffôn TINMENDO a grëwyd yn arbennig. Roedd y cynllunwyr theatr hefyd yn brysar ar-lein gydag oriel rithwir o'u gwaith yn cael ei harddangos, ac mae arddangosfeydd rhithwir eraill ar y gweill.

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Cerddoriaeth newydd, Tim Rhys-Evans, argraff ar y Coleg ar unwaith. Drwy agor ei lyfr cysylltiadau trefnodd gyfres o ddeuddeg sesiwn 'Lockdown Lowdowns' gyda cherddorion, cantorion, arweinwyr a chyfansoddwyr uchel eu proffil ac roeddent yn boblogaidd iawn gyda myfyrwyr o'r holl adrannau. Mae rhai o'r sgyrsiau hyn sy'n cynnwys Dennis Rollins, Ryan Bancroft, Rebecca Evans, Skaila Kanga a Sofi Jeannin nawr wedi'u rhyddhau ar-lein a gellir eu gweld ar sianel YouTube y Coleg.

a gobeithiwn ryddhau'r rhain i'r cyhoedd yn y man yn dilyn prosiect golygu gyda BBC Studios.

*Penny King, Pennaeth Rhaglennu Creadigol*

**I GAEL GWYBOD RHAGOR AM SUT Y MAE CYMUNED CBCDC WEDI BOD YN GREADIGOL YN YSTOD Y CLO MAWR DARLLENWCH EIN BLOG BBLOG. RWCMD.AC.UK SY'N CYNWYS NIFER O DDOLENNI I WAITH A GREWYD GAN FYFYRWYR AR-LEIN.**

**#RWCMDCREATIVE**

## GYDA GWERTHFAWROGIAD ENFAWR

**DECHREUODD PERTHYNAS MARILYN LE CONTE GYDA CHOLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU DROS 30 O FLYNYDDOEDD YN ÔL YM 1986 PAN DDAETH YN DDARLITHYDD RHAN AMSER AR Y CWRS BED. GAN EI BOD MOR AMRYDDAWN, CYN PEN DIM ROEDD HI'N ADDYSGU AR Y CYRSIAU ACTIO, GAN ARBENIGO MEWN LLEFERYDD AC ACTIO AR GYFER Y RADIO AC AR NIFER O GYRSIAU ERAILL AR DRAWS Y PORTFFOLIO ACADEMAIDD.**

Penodwyd Marilyn yn Ddarlithydd Actio llawn amser yn 2004 ac yn Uwch Ddarlithydd yn 2008, gan arbenigo mewn actio ar gyfer y radio a throsleisio. Dros nifer o flynyddoedd gwerthfawrogwyd yn fawr ei harweinyddiaeth ysbrydoledig ym maes hyfforddiant, yn arbennig ar gyfer radio. Mae'r llwyddiannau dihafal y mae myfyrwyr o dan ei gofal wedi'u cael fel cyfranogwyr yng nghystadlaethau Gwobr Bwrsariaeth Carleton Hobbs y BBC wedi ei ganmol o fewn y Coleg ac yn allanol, gan gyfrannu'n sylweddol at enw da'r Coleg. Mae'r 18 enillydd a'r 14 a daeth yn ail yn y gystadlaethau dros y blynyddoedd yn adlewyrchu ei hangerdd a'i hymroddiad i'r her flynyddol a chânt eu hystyried gydag edmygedd drwy'r sector cyfan. Mae Marilyn hefyd wedi cynnal gwaith ymchwil gwerthfawr, gan arwain at fod yn gyd-awdur y gyfres tair rhan o lyfrau RadioActive, a gyhoeddwyd gan Bloomsbury. Oherwydd ei mentegarwch mae llyfrgell y Coleg wedi ehangu'n sylweddol drwy gaffael y casgliad dramâu a roddwyd iddo gan Gymdeithas Ddrama Cymru, a bu'n ehangu'r casgliad yn bersonol yn rheolaidd gyda'r testunau mwyaf newydd a phwysicaf, mewn cydweithrediad â staff llyfrgell.

Fel rhan o'n datblygiadau campws mwy diweddar, cyfarwyddodd Marilyn gynhyrchiad theatr radio byw o 'Under Milk Wood' a gyhoeddodd agoriad swyddogol Theatr Richard Burton yn 2011. Roedd y cynhyrchiad yn cynnwys cerddoriaeth wreiddiol a gomisiynwyd gan fyfyrwr o'r adran gyfansoddi, recordiad o lais Richard Burton ei hun, a pherfformiadau byw gan ei ferch a'i nai, Kate Burton a Guy Masterson, yn ogystal â'r gantores opera o fri Rebecca Evans.

Er mai i'r adran actio yr oedd Marilyn yn gweithio'n bennaf, roedd hefyd yn cyfrannu'n rheolaidd ar draws y portffolio academaidd cyfan, gan addysgu myfyrwyr ar gyrsiau Astudiaethau Llais, Rheolaeth yn y Celfyddydau, Rheoli Llwyfan, Cynllunio Theatr, Theatr Gerddorol a'r Stiwdio Actorion Ifanc; bydd carfanau di-ri o raddedigion ar draws yr holl gyrsiau yn tystio i ysbrydoliaeth, ymroddiad a dawn Marilyn fel athro, mentro, cyfarwyddwr a pherfformiwr a'r effaith y mae ei gwybodaeth wedi'i chael ar yrfaeodd llwyddiannus nifer o'n teulu o gyn-fyfyrrwyr. Fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr am ei gwaith mentora a'i hymroddiad i fyfyrwyr.

Roedd ymrwymiad personol ac ymroddedig Marilyn i brofiad dysgu ein holl fyfyrwyr yn cynnwys llawer o ymweliadau recriwtio myfyrwyr yn y DU ac UDA, gan fod yn aelod craidd o baneli clyweld a dyrchafu a dathlu cyflawniadau ein cyn-fyfyrrwyr nifer o flynyddoedd wedi iddynt raddio. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae wedi rhoi cefnogaeth fawr i'r adran datblygu drwy roi sgysiau i rai sydd â diddordeb a thrwy gyfarwyddo adloniant corfforaethol ar ran y Coleg gan gynnwys y rheini ar gyfer EUB Tywysog Cymru yn ei gartref haf.

Marilyn oedd yr aelod staff oedd wedi bod yn ei swydd am y mwyaf o amser yn y Coleg ac mae ei gwaith wedi cael ei barchu a'i werthfawrogi gan bawb. Rwy'n gwybod y byddwch am ymuno â ni i ddymuno'r gorau i Marilyn yn ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**"...MAE MARILYN HEFYD WEDI CYFRANNU'N RHEOLAIDD AR DRAWS Y PORTFFOLIO ACADEMAIDD CYFAN, GAN DDYSGU MYFYRWYR AR GYRSIAU MEWN ASTUDIAETHAU LLEISIOL, RHEOLI'R CELFYDDYDAU, RHEOLI LLWYFAN, DYLUNIO THEATR, THEATR GERDDOROL A STIWDIO'R YOUNG ACTORS..."**

## CRONFA CALEDI

**GYDA'R ARGYFWNG CORONAFEIRWS YN PARHAU, MAE MWY A MWY O'N MYFYRWYR BELLACH YN WYNEBU CALEDI ARIANNOL AC ANAWSTERAU YMARFEROL GO IAWN. RYDYM YN GWNEUD CYMAINT AG Y GALLWN, GYDA CHYLLIDEB AC ADNODDAU CYFYNGEDIG, I GEFNOGI EIN MYFYRWYR YN YSTOD Y CYFNOD HERIOL HWN.**

Yn ddiweddar, lansiodd y Coleg Apêl Arbennig brys i gefnogi'r myfyrwyr hynny sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan bandemig Covid-19. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai sydd wedi ein helpu i adeiladu'r gronfa hon. Diolch.

Cliciwch yma i ddarganfod mwy.

## CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Mae llawer o fanteision ymuno â Chymdeithas y Cynfyfyrwyr. Yn ogystal â'ch cynorthwyo i ailgysylltu â'ch cyfoedion, rydym y cynnig ystod o wasanaethau yn cynnwys aelodaeth Llyfrgell gyda disgownt am hyd at 3 mlynedd wedi graddio, disgowntiau yn y swyddfa docynnau ac ar ofodau rihysio, disgowntiau aelodaeth broffesiynol.

Graddiodd Dosbarth 2020 mewn cyfnod rhyfeddol o anodd. Mae gan ein cymuned cyn-fyfyrrwyr sgiliau a phrofiadau proffesiynol a allai fod yn werthfawr iawn i'n cyn-fyfyrrwyr mwyaf diweddar. Oes gennych chi rywbeth i'w gynnig i'ch cyd gyn-fyfyrrwyr? Ydych chi'n chwilio am gefnogaeth? E-bostiwch [alumni@rwcmd.ac.uk](mailto:alumni@rwcmd.ac.uk) er mwyn sgwrsio am sut y gallwn helpu.

**HELPWCH NI I AILGYSYLLTU Â CHYNYFYFYRWYR ERAILL DRWY RANNU GWYBODAETH AM Y GYMDEITHAS GYDA NHW: [RWCMD.AC.UK/ALUMNI](http://RWCMD.AC.UK/ALUMNI)**

Chanae Curtis yn *The Marriage of Figaro*.  
Llun gan Robert Workman.



Ymaelodwch i gefnogi profiadau  
hyfforddiant a chyfleoedd  
performio myfyrwyr



I gael rhagor o wybodaeth am ymuno â CYSWLLT  
ewch i [WWW.RWCMD.AC.UK/CY/CEFNOGWCH-NI/CYSWLLT](http://WWW.RWCMD.AC.UK/CY/CEFNOGWCH-NI/CYSWLLT)  
neu drwy gysylltu â [CONNECT@RWCMD.AC.UK](mailto:CONNECT@RWCMD.AC.UK)



Cofrestrwyd gyda'r  
**FUNDRAISING  
REGULATOR**  
RHEOLEIDIWR CODI ARIAN

ROYAL WELSH COLLEGE  
OF MUSIC & DRAMA  
COLEG BRENHINOL  
CERDD A DRAMA CYMRU

## ETIFEDDIAETH

"DRWY GYNNWYS FY SODDGRWTH,  
'HOTCH', FEL RHODD YN FY EWYLLYS  
A SEFYDLU YSGOLORIAETH  
SODDGRWTH, RWYF WEDI DIOGELU  
DYFODOL I 'HOTCH' YN OGYSTAL  
AG ARIAN I ALLUOGI MYFYRWYR  
DAWNUS Y DYFODOL I BARHAU Â'U  
HASTUDIAETHAU CERDDOROL.  
NI ALLWN OFYN AM FWY."

**ELISABETH HOTCHKISS, CYMYNNWR**

I sgwrsio gyda rhywun am  
gefnogi myfyrwyr CBCDC  
drwy adael rhodd yn eich  
ewylllys, cysylltwch â:

**SARA WEST**  
[Sara.west@rwcmd.ac.uk](mailto:Sara.west@rwcmd.ac.uk) **neu**  
**MARIE WOOD**  
[Marie.wood@rwcmd.ac.uk](mailto:Marie.wood@rwcmd.ac.uk)



Cofrestrwyd gyda'r  
**FUNDRAISING  
REGULATOR**  
RHEOLEIDIWR CODI ARIAN